



Adrodd ar berfformiad ysgolion – Bwletin 4



© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2017
WG33557

Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Awdurdodau Lleol a Chonsortia ynghylch adrodd ar berfformiad ysgolion drwy'r bwletin hwn. Byddwn yn defnyddio'r bwletin i sicrhau eich bod yn cael gwybod am unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio ar bolisiâu adrodd ar berfformiad, ac i egluro unrhyw faterion cymhleth. A fydddechystal â rhannu'r wybodaeth hon â'ch ysgolion fel y bo'n briodol?

Newidiadau i gofrestru'n gynnar ar gyfer arholiadau yn effeithio ar adrodd ar berfformiad ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4

Ar 16 Hydref, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg [newidiadau i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4](#) o ganlyniad i gynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n sefyll arholiadau TGAU yn gynnar yng Nghymru.

O dan fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 ar hyn o bryd, canlyniad gorau'r cymhwyster sy'n cyfrif. Eglura datganiad Ysgrifennydd y Cabinet ([dolen i'r Cofnod](#)) y bydd hyn yn newid yn 2019. **O haf 2019 ymlaen, dim ond canlyniad y tro cyntaf y dyfernir cymhwyster llawn i ddysgwr fydd yn cyfrif** tuag at fesurau perfformiad yr ysgol.

Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn cael gwared â'r cyfyngiadau ar ailsefyll arholiadau o gyfres mis Tachwedd o 2018 ymlaen. Bydd hyn yn caniatáu i ysgolion ddewis cofrestru unrhyw ddysgwyr i sefyll TGAU Cymraeg a Saesneg laith. Dim ond TGAU Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd y mae modd eu sefyll yn y gyfres honno ar hyn o bryd.

Bydd y newid hwn yn annog ysgolion i gofrestru dysgwyr ar gyfer arholiadau pan fônt yn hyderus eu bod yn barod i gael y canlyniad gorau posibl. Nid yw'n atal dysgwyr rhag ailsefyll pe bai ysgol neu ddysgwr yn dymuno ceisio gwella eu canlyniadau, ond ni fyddai'r ail ganlyniad yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad yr ysgol, hyd yn oed lle bo'r canlyniad yn well. **Bydd y dysgwr yn parhau i allu defnyddio'r canlyniad gorau i fynd ymlaen at ddysgu pellach.**

Mae'r newid hwn yn berthnasol i holl gymwysterau'r dysgwr (gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol) ni waeth pryd y gwnaeth eu sefyll. Er enghraifft, os yw dysgwr Blwyddyn 10 yn sefyll arholiad Mathemateg am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2017, y canlyniad hwnnw fydd yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad yr ysgol yn haf 2019, gan mai dyna fydd canlyniad cyntaf y dysgwr ar gyfer Mathemateg. Ni fydd canlyniadau dilynol yn yr un pwnc yn cyfrif tuag at y mesurau perfformiad, hyd yn oed lle mae'r canlyniadau hyn yn arwain at radd uwch. Ni fydd y newid hwn yn effeithio ar ddysgwyr sydd ym Mlwyddyn 9 ar hyn o bryd a'r rheini sy'n iau sydd eisoes wedi sefyll arholiadau am gymwysterau cyn i'r polisi hwn gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2017. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd i ddod, yn achos pob dysgwr a gofrestrir yn gynnar ym mhob grŵp blwyddyn, y cynnig cyntaf fydd yn cyfrif.

Ni ddylai'r newidiadau hyn i sut y cyfrifir mesurau perfformiad atal ysgolion rhag cofrestru dysgwyr yn gynnar pan fo hynny er lles iddynt. Dyma pam y bydd gan ysgolion fwy o hyblygrwydd o ran cofrestru dysgwyr ar gyfer TGAU Cymraeg a Saesneg Iaith ym mis Tachwedd 2018.

Y sgôr pwyntiau wedi'i chapio – gwyddoniaeth

O 2018 ymlaen dim ond TGAU Gwyddoniaeth y gellir eu cyfrif yn yr elfen benodol i wyddoniaeth o'r sgôr 'Capio 9'.

Mae'r rhestr o gymwysterau cymeradwy i'w gweld ar QiW drwy ddefnyddio'r ffiltir uwch a sicrhau bod tic yn y blwch 'Yn cyfrif tuag at DPC'.

TGAU 9–1 yng Nghymru

Yn 2017 yn Lloegr, cyflwynodd yr Adran Addysg raddau rhifyddol ar gyfer TGAU yn hytrach na'r graddau A*-G fel y gwelir yng Nghymru. Mae'r cymwysterau hyn yn cael gradd o 9-1. 9 yw'r sgôr uchaf y gellir ei chael. Yng Nghymru, mae'r TGAU 9-1 yn cyfrif mewn gwybodaeth am berfformiad o ran darpariaeth. Nid yw hyn ond yn effeithio ar bynciau lle ceir niferoedd isel yng Nghymru, lle nad oes cymhwyster TGAU i Gymru yn unig, a lle mae ysgolion annibynnol yn dewis pa TGAU i'w ddarparu.

Mae TGAU 9-1 a roddir yng Nghymru yn cyfrif tuag at gyfres o fesurau perfformiad ysgolion, ee y trothwyon lefel, Capio 9 a Bagloriaeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod y rheol 'canlyniad cyntaf sy'n cyfrif' yn berthnasol.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae'r cymwysterau hyn yn cyfrif o ran mesurau perfformiad, ewch i [QiW](#), y gronfa ddata o gymwysterau cymeradwy yng Nghymru.

Cyfyngiad ar gymwysterau nad ydynt yn TGAU a'r mesur trothwy 5A*–A

Cyhoeddwyd cyn hyn, mai o 2017 ymlaen 40% o gymwysterau nad ydynt yn TGAU fydd yn cyfrif tuag at y mesurau trothwy. Nodwch fod y cap hwn ar gymwysterau nad ydynt yn TGAU hefyd yn berthnasol i'r mesur trothwy 5A*-A. Gweler y maes '*Yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad o 40% o gymwysterau nad ydynt yn TGAU*' ar [QiW](#) i bennu a yw cymhwyster yn TGAU ai peidio.

Mae'r uchod yn berthnasol hefyd i'r Dystysgrif Her Sgiliau.

Sgiliau Hanfodol Cymru

Rydym wedi cyhoeddi yn y bwletin hwn cyn hyn nad oedd cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn cael eu cymeradwyo bellach ar gyfer dysgwyr cyn-16 o 2017 ymlaen, ac felly na fyddent yn denu unrhyw bwyntiau perfformiad. Mae'r corff rheoleiddio, Cymwysterau Cymru, wedi pennu bod y cymwysterau'n addas ar gyfer dysgwyr cyn-16 a'u bod wedi'u cymeradwyo'n awr. Fodd bynnag, yn unol â'r argymhellion sy'n deillio o'r Adolygiad o

Gymwysterau, **ni fydd y cymwysterau hyn yn cyfrif at ddibenion y mesurau perfformiad o hyd.**

Newid y ffiniau meincnodi ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf – pecynnau perfformiad Cyfnod Allweddol 4

Cyn 2016/17, roedd ffiniau meincnodi'n seiliedig ar berfformiad pob ysgol â chanlyniadau Cymraeg Iaith Gyntaf. O 2016/17 roedd ffiniau meincnodi'n seiliedig ar berfformiad ysgolion a oedd yn nodi eu bod naill ai'n ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar eu datganiad CYBLD.

Gwnaed y newid hwn i sicrhau y cyfrifir y ffiniau drwy ddefnyddio canlyniadau'r ysgolion sy'n cofrestru'r mwyafrif helaeth o'u disgyblion ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf. Drwy wneud hyn, nid yw'r cofnodion o berfformiadau mwy amrywiol, y gwelir mewn ysgolion sy'n cofrestru nifer bychan ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, yn effeithio ar safle'r ffiniau.

Sylwch fod hyn yn golygu bod yr amrediad rhwng y chwarterl uchaf ac isaf yn llawer llai na'r blynyddoedd blaenorol, gyda chynnydd i'w weld yn y chwarterl isaf yn arbennig. O ganlyniad, nid oes modd cymharu'r data'n uniongyrchol â data cyn 2016/17.

Caiff bwletin arall ynghylch cofnodi perfformiad disgyblion ôl-16 ei gyhoeddi maes o law.